**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**13 Hydref 2023**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 14 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993 ("Rheoliadau 1993"). Mae Rheoliadau 1993 yn darparu ar gyfer newid rhestrau prisio'r dreth gyngor gan swyddogion rhestru. Mae rheoliad 14 yn pennu'r dyddiad y mae newidiadau i gael effaith o dan amgylchiadau gwahanol.

1.2. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r dyddiad pan fo newid i restr brisio'r dreth gyngor yn cael effaith o dan amgylchiadau pan fu cynnydd materol yng ngwerth annedd ac yna trafodiad perthnasol, a phan fo un neu ragor o unedau hunangynhwysol wedi'u creu o fewn annedd bresennol (y cyfeirir ato fel anecs yng ngweddill y ddogfen hon). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r dyddiad cael effaith ar gyfer newidiadau o'r fath i'r dyddiad y cofnodir y newid yn y rhestr.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Dim

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Gwneir y Rheoliadau hyn gan ddefnyddio'r pwerau o dan adrannau 24(1) a (7)(a) a 113(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (“Deddf 1992”). Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol yn Neddf 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.2. Mae adrannau 24(1) a (7)(a) o Ddeddf 1992 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â newid rhestrau prisio gan swyddogion rhestru, ac i ddarparu'r dyddiad y mae newid yn cael effaith ohono. Mae adran 113(2) o'r Ddeddf honno'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud unrhyw ddiwygiadau canlyniadol y maent yn ystyried eu bod yn angenrheidiol. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i reoliad 14 o Reoliadau 1993 sy'n deillio o fewnosod rheoliad 14(5A).

3.3. Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol.

### 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1. Diben y Rheoliadau hyn yw amddiffyn trethdalwyr rhag ôl-ddyledion treth gyngor sy'n deillio o oedi gweinyddol yn y broses o newid bandiau prisio.

4.2. Mae'r dreth gyngor yn dreth leol ar eiddo domestig, a osodir yn flynyddol gan awdurdodau lleol (a chyrff praeseptio) er mwyn casglu digon o refeniw i ddiwallu anghenion gwariant. Fe'i cyfrifir yn seiliedig ar y band treth gyngor a

neilltuir i bob annedd yn ardal yr awdurdod lleol, a neilltuir pob annedd i un o naw band prisio. Mae'r bandiau yn cael eu hasesu a'u neilltuo gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ("yr Asiantaeth").

4.3. Mae dyletswydd statudol ar yr Asiantaeth i gyflawni prisiadau o anheddau yng Nghymru at ddibenion llunio a chynnal rhestrau prisio'r dreth gyngor, fel y nodir yn adran 21 o Ddeddf 1992.

4.4. Mae'r amgylchiadau pan all yr Asiantaeth newid band prisio wedi'u cyfyngu gan y darpariaethau yn rheoliad 4 o Reoliadau 1993. Pan fu cynnydd materol yng ngwerth annedd, ni all yr Asiantaeth newid band prisio eiddo hyd nes y bu 'trafodiad perthnasol' dilynol (fel y'i diffinnir yn adran 24(10) o Ddeddf 1992) mewn perthynas â'r eiddo cyfan neu ran ohono, neu fod ymarfer ailbrisio wedi'i gomisiynu gan Weinidogion Cymru o bob eiddo domestig. Mae'r cyfyngiad hwn yn helpu i sicrhau nad yw trethdalwyr yn cael eu cosbi am wella eu cartref neu wneud gwaith cynnal a chadw arno.

4.5. Pan fydd eiddo'n cael ei wella'n sylweddol neu ei newid yn strwythurol, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol perthnasol i hysbysu'r Asiantaeth. Ar ôl cael ei hysbysu, bydd yr Asiantaeth yn cofrestru dynodwr addas yn erbyn yr eiddo. Yna, bydd trafodiad perthnasol (fel gwerthiant) yn sbarduno adolygiad gan yr Asiantaeth o fand prisio'r dreth gyngor ar gyfer yr eiddo. Caiff yr Asiantaeth newid y band prisio neu ei adael fel y mae. Pe bai'r Asiantaeth yn penderfynu y dylid newid y band prisio gan fod gwerth yr eiddo wedi cynyddu i fod o fewn band prisio uwch, roedd Rheoliadau 1993 (cyn gwneud y Rheoliadau hyn) yn darparu bod y newid yn cael effaith o ddyddiad y trafodiad perthnasol.

4.6. Pan fo'r broses a amlinellir uchod yn gweithio'n dda, yn gyffredinol, mater o wythnosau fydd rhwng perchennog newydd yn prynu eiddo a'r Asiantaeth yn dyroddi hysbysiad newid. Fodd bynnag, os bydd oedi gweinyddol yn unrhyw ran o'r broses, gall hyn gael effaith ariannol andwyol ar drethdalwyr newydd ac arwain at ôl-ddyledion treth gyngor iddynt a allai fod yn sylweddol ac annisgwyl, a hynny heb fod unrhyw fai arnynt hwy.

4.7. Mae proses ar wahân ar gyfer hysbysu'r Asiantaeth am greu anecs; fodd bynnag, hysbysir amdanynt yn aml gan ddefnyddio'r broses uchod os cânt eu trin gan yr awdurdod lleol fel gwelliant i eiddo. Cyn i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud, dyddiad cael effaith unrhyw newid i'r band prisio o ganlyniad i greu anecs, oedd y dyddiad y daeth yr anecs i fodolaeth. Gall gwerthu annedd o'r fath ddigwydd nifer o flynyddoedd ar ôl i'r anecs ddod i fodolaeth, a thrwy hynny achosi oedi sylweddol wrth sbarduno'r Asiantaeth i gyflawni prisiad a (phan fo'n briodol) diwygio'r rhestr. Gallai hyn eto arwain at ôl-ddyledion treth gyngor sylweddol ac annisgwyl.

4.8. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylai unrhyw drethdalwr ei ganfod ei hun yn y sefyllfa hon. Bydd y Rheoliadau yn helpu hefyd i sicrhau nad fydd trethdalwyr yn wynebu ôl-ddyledion treth gyngor yn ystod y cyfnod disgwyliedig o newid gweinyddol drwy gydol y broses o gyflwyno rhaglen waith Llywodraeth Cymru i wneud y dreth gyngor yn decach.

## 5. Ymgynghori

5.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad technegol ar ddrafft o’r Rheoliadau hyn gydag ymarferwyr arbenigol mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, a swyddogion yr Asiantaeth. Cyn yr ymgynghoriad technegol, roedd ymgysylltu rheolaidd a pharhaus ag awdurdodau lleol a'r Asiantaeth mewn perthynas â'r mater hwn ac roedd yr holl randdeiliaid yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig cyn i ddrafft o'r Rheoliadau hyn gael ei rannu â hwy iddynt ei ystyried. Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau drafft gan yr Asiantaeth na chan yr un awdurdod lleol.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Yr opsiynau

6.1. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau opsiwn ar gyfer mynd i'r afael ag effaith oedi gweinyddol yn y broses o newid bandiau prisio'r dreth gyngor ar drethdalwyr. Mae'r opsiynau a ystyriwyd fel a ganlyn.

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**

6.2. Cadw'r trefniadau presennol, heb unrhyw ostyngiad i'r risg y bydd trethdalwyr y dreth gyngor yn atebol am filiau'r dreth gyngor ôl-ddyddiedig ar ôl newid rhestrau.

**Opsiwn 2 – Gwneud y Rheoliadau**

6.3. Deddfu i leihau'r risg y bydd trethdalwyr y dreth gyngor yn atebol am filiau'r dreth gyngor ôl-ddyddiedig ar ôl newid rhestrau.

### 7. Costau a manteision

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**

7.1. Ni fyddai unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn cael eu gwneud. Byddai hyn yn golygu y byddai trethdalwyr yn parhau i fod mewn perygl o wynebu ôl-ddyledion treth gyngor pe bai oedi gweinyddol yn unrhyw ran o'r broses o newid rhestr brisio'r dreth gyngor ar ôl cynnydd materol yng ngwerth eiddo a thrafodiad perthnasol dilynol, yn ogystal â threthdalwyr a oedd wedi adeiladu neu addasu eiddo i ddarparu uned hunangynhwysol, h.y. anecs. Nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Opsiwn 2 – Gwneud y Rheoliadau**

7.2. Byddai gwneud y Rheoliadau fel y nodir uchod yn dileu'r risg o drethdalwyr y dreth gyngor yn wynebu ôl-ddyledion pe bai oedi gweinyddol i unrhyw ran o'r broses pan fydd eiddo wedi gweld cynnydd materol a gwerthiant dilynol, neu pan fo anecs wedi'i greu. Byddai'r dull hwn yn atal unrhyw golled ariannol sylweddol i drethdalwyr.

7.3. Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r opsiwn hwn. Mae potensial y gallai awdurdodau lleol golli ychydig o refeniw'r dreth gyngor pan fyddent fel arall wedi casglu taliad ôl-weithredol gan drethdalwr, pe bai eiddo yn cael ei osod mewn band uwch gan yr Asiantaeth. Fodd bynnag, pan fo oedi i'r rhan o'r broses sy'n ymwneud â throsglwyddo gwybodaeth o awdurdod lleol i'r Asiantaeth, ni fyddai'r awdurdod lleol wedi cynnwys y refeniw uwch yn ei ofyniad cyllidebol nac wedi rhag-weld ei gasglu.

7.4. Mae'r Rheoliadau yn atal y risg y bydd trethdalwyr yn wynebu biliau ôl-ddyddiedig mawr os bydd oedi yn unrhyw ran o'r broses weinyddol. Mae hyn

yn meithrin ymddiriedaeth yn system y dreth gyngor ac yn helpu i sicrhau ei heffeithiolrwydd.

7.5. Byddai cyfle hefyd i symleiddio arferion gweithredol yn yr Asiantaeth, gan nad yw'r polisi ar ddyddiadau cael effaith ar ôl newid rhestrau yng Nghymru yn gydnaws ar hyn o bryd â'r polisi cyfatebol o ran y dreth gyngor yn Lloegr. Gallai hyn helpu i leihau costau gweinyddol.

**Dewis opsiwn**

7.6. Ystyrir bod manteision Opsiwn 2, yn enwedig o ran lleihau'r effeithiau ariannol ar drethdalwyr y dreth gyngor a sicrhau tegwch iddynt, gan sicrhau nad ydynt o dan anfantais ariannol oherwydd prosesau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth, yn drech na manteision Opsiwn 1. Opsiwn 2, felly, yw'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

## 8. Dyletswyddau

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

8.1. Mae cynnal a gwella'r system drethu leol yn cyfrannu tuag at y nodau llesiant Cymru lewyrchus a Chymru fwy cyfartal.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**.

8.2. Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.

**Y Gymraeg**.

8.3. Ni nodwyd unrhyw effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal.

**Cydraddoldeb**.

8.4. Ni nodwyd effeithiau penodol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

**Y sector gwirfoddol**.

8.5. Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar y sector gwirfoddol.

8.6. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar y system gyfiawnder. Ni fydd y newidiadau yn effeithio ar Dribiwnlys Prisio Cymru.

## 9. Asesu'r gystadleuaeth

9.1. Dim ond arferion gweinyddol yr Asiantaeth y bydd y Rheoliadau yn effeithio arnynt, ac o'r herwydd, ni nodwyd unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Asiantaeth ac awdurdodau lleol i fonitro effaith y Rheoliadau i werthuso a yw'r newid deddfwriaethol wedi cael yr effaith polisi a fwriadwyd.